
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|----------------------------|--|
| Enw / Name: | Meilyr Rowlands |
| Rôl / Role: | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| E-bost / Email: | ChiefInspector@estyn.gov.uk |
| Rhif Ffôn / Tel No: | 02920 446 446 |
| <hr/> | |
| Dyddiad / Date: | 22/04/2020 |
| Pwnc / Subject: | Cronfeydd data addysg awdurdodau lleol |

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Rydym yn cefnogi cyflwyno rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu a chynnal ei gronfa ddata ei hun o'r holl blant o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal. Rydym yn cefnogi'r gofyniad arfaethedig fod byrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol yn rhannu gwybodaeth sylfaenol bob blwyddyn am blant sy'n hysbys iddynt gydag awdurdodau lleol perthnasol. Bydd y rheoliadau arfaethedig yn cryfhau gallu awdurdodau lleol i nodi plant o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal, ac asesu addasrwydd eu haddysg.

Mae'r cynnig yn cefnogi awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ategu erthyglau 28 a 29 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n gysylltiedig â'r hawl i bob plentyn yng Nghymru gael addysg addas.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Mae'r rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol ddatgelu i awdurdodau lleol (ALLau) y wybodaeth a restrir yn Atodlen 1 i'r rheoliadau. Bydd hyn yn helpu'r ALI i adnabod plant o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd.

i) Ydych chi'n credu bod y wybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol ac yn gymesur? Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

Ydyn. Gall awdurdod lleol ond cyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg addas os ydynt yn gwybod am bob un o'r plant sy'n byw yn eu hardal. Felly, mae'n rhesymol ac yn gymesur i'w gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol rannu gwybodaeth sylfaenol gyda'r awdurdod lleol perthnasol am blant sy'n hysbys iddynt.

ii) Os nad ydych yn credu bod y wybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol nac yn gymesur, beth fyddai'r ffordd orau/ffyrdd gorau o gyflawni dyletswydd yr ALI i adnabod plant o oedran ysgol gorfodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael addysg addas, yn eich barn chi?

Dd/b

Cwestiwn 2 – Ar hyn o bryd, mae ALLau yn gyfrifol am blant yn eu hardal nad ydynt yn ymwybodol ohonynt. O dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 mae'n rhaid i ALLau wneud trefniadau i'w galluogi i ganfod (hyd y gellir gwneud hynny) pwy yw'r plant yn eu hardal sydd o oedran ysgol gorfodol ond i) nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol, a ii) nad ydynt yn cael addysg addas heblaw yn yr ysgol. A ydych o'r farn y bydd y gronfa ddata yn helpu ALLau, hyd y gellir gwneud hynny, i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd a/neu blant sy'n colli addysg yn eu hardal? Beth yw'r rheswm dros eich ateb?

le, bydd y gronfa ddata yn galluogi awdurdodau lleol i gael cronfa ddata eithaf cynhwysfawr o'r holl blant o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal.

Cwestiwn 3 – Heb gronfa ddata, pa ddull amgen dibynadwy a chyson a fyddai'n galluogi'r ALL i adnabod plentyn nad yw'n hysbys iddo?

Nid yw dulliau presennol yn ddibynadwy nac yn gyson, gan gynnwys defnyddio cofrestrau genedigaethau byw a hysbysiadau dadgofrestru ysgolion. Mae'n anodd rhagweld y bydd unrhyw ddull arall mor ddibynadwy a chyson â chronfa ddata sy'n coladu gwybodaeth hanfodol am blant o oedran ysgol gorfodol o ystod o ffynonellau priodol.

Gan y bydd y gronfa ddata yn darparu ar gyfer gwiriad blynyddol, yn hytrach na'i bod yn gronfa ddata fyw, byddai'n ddarvoudus i awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio dulliau presennol, fel hysbysiadau dadgofrestru ysgolion, i nodi plant o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal nad ydynt mewn sefydliad addysgol. Byddem yn annog ysgolion annibynnol i fod yn rhagweithiol wrth hysbysu awdurdodau lleol am ddisgyblion newydd sy'n byw yn yr ardal leol sy'n ymuno â'r ysgol yn hytrach nag aros am y gwiriad blynyddol. Gallai'r camau gweithredu hyn alluogi awdurdod lleol i asesu addasrwydd addysg plentyn yn gynharach na phe bai wedi aros am y gwiriad cronfa ddata blynyddol.

Cwestiwn 4 – Mae Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Addysg) (Cymru) 2020 drafft yn cynnig y dylai byrddau iechyd lleol ddatgelu'r wybodaeth yn Atodlen 1 i ALLau yn flynyddol. A ydych yn cytuno â datganiad blynyddol? Os nad ydych yn cytuno, pa mor aml y dylid rhoi'r wybodaeth hon i ALLau yn eich barn chi, a beth fyddai'r adeg fwyaf priodol?

Credwn fod datganiad blynyddol yn rhoi disgyblion nad ydynt yn derbyn addysg addas, mewn perygl sylweddol. Byddai datganiad tymhorol (3 gwaith y flwyddyn) yn fwy priodol ac yn gyflawnadwy, yn ein barn ni.

Cwestiwn 5 – Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 drafft yn cynnig y dylai ysgolion annibynnol ddatgelu'r wybodaeth yn Atodlen 1 i ALLau yn flynyddol. A ydych yn cytuno â datganiad blynyddol? Os nad ydych yn cytuno, pa mor aml y dylid rhoi'r wybodaeth hon i ALLau, yn eich barn chi, a beth fyddai'r adeg fwyaf priodol?

Credwn fod datganiad blynyddol yn rhoi disgyblion nad ydynt yn derbyn addysg addas, mewn perygl sylweddol. Byddai datganiad tymhorol (3 gwaith y flwyddyn) yn fwy priodol ac yn gyflawnadwy, yn ein barn ni.

Cwestiwn 6 – Beth fyddai goblygiadau technegol a gweinyddol, a goblygiadau o ran adnoddau, cyflwyno datganiad data yn amlach o ran y canlynol:

i) byrddau iechyd lleol

Byrddau iechyd lleol sydd yn y sefyllfa orau i allu ateb y cwestiwn hwn.

ii) ysgolion annibynnol

Ysgolion annibynnol sydd yn y sefyllfa orau i allu ateb y cwestiwn hwn.

iii) ALLau

Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i allu ateb y cwestiwn hwn.

iv) arall.

Dim ateb.

Cwestiwn 7 – Pwy fyddai angen cael mynediad at y gronfa ddata yn yr ALI er mwyn cyflawni ei swyddogaethau?

Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i allu ateb y cwestiwn hwn.

Cwestiwn 8 – A gredwch y gallai unrhyw beth yn y rheoliadau drafft gael effaith anghymesur ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, ac os felly, beth?

Rydym ni o'r farn na fyddai'r rheoliadau drafft yn cael effaith anghymesur ar y rhai â nodweddion gwarchodedig.

Cwestiwn 9 – A yw'r cynnig hwn yn caniatáu i'r ALI gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 436A i wneud trefniadau i adnabod plant yn ei ardal sydd o oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn cael addysg addas?

Efallai na fydd y gronfa ddata arfaethedig yn rhoi sicrwydd y bydd pob plentyn o oedran ysgol gorfodol mewn ardal yn cael ei nodi. Fodd bynnag, bydd yn darparu dull cryn dipyn yn fwy dibynadwy a chyson ar gyfer nodi plant na'r drefn ar hyn o bryd.

Cwestiwn 10 – Er mwyn nodi pa mor effeithiol yw'r gronfa ddata bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i ALLau gyflwyno datganiad blynyddol ar nifer y plant y maent wedi'u hadnabod drwy ddefnyddio'r gronfa ddata nad oeddent yn hysbys i ALLau yn flaenorol. Beth fyddai'r adeg fwyaf priodol a rhesymol i ofyn am hyn?

Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i allu ateb y cwestiwn hwn.

Cwestiwn 11 – A fyddai cronfa ddata wirfoddol o bob plentyn o oedran ysgol statudol sy'n preswyllo fel arfer yn ardal ALI yn helpu ALLau i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 436A, yn eich barn chi?

Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at gronfa ddata wirfoddol a sut gallai hyn weithredu ochr yn ochr â'r gronfa ddata a gynigir yn y ddogfen ymgynghori, neu yn ei lle. Bydd y gronfa ddata arfaethedig yn darparu dull dibynadwy a chyson i gynorthwyo awdurdodau lleol i nodi plant o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal.

Cwestiwn 12 – Beth fyddai manteision ac anfanteision datgelu'r data gofynnol i boblogi'r gronfa ddata, os o gwbl, yn eich barn chi? Cwblhewch yr adran sy'n berthnasol i chi.

i) Rhieni/gofalwyr

Mantais: eglurder am y modd y bydd awdurdodau lleol yn gallu mynd at wybodaeth sy'n eu galluogi i nodi unrhyw blant o oedran ysgol gorfodol.

ii) Plant a phobl ifanc

Mantais: Llai o risg na fydd plant o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg addas.

iii) Byrddau iechyd lleol

Dim ateb.

iv) Ysgolion annibynnol

Dim ateb.

v) ALLau

Mantais: Tebygolrwydd gwell i allu nodi pob un o'r plant o oedran ysgol gorfodol, ac felly asesu bod pob un o'r plant hyn yn derbyn addysg addas.

vi) Arall

Mantais i Lywodraeth Cymru: mwy o sicrwydd fod pob un o'r plant o oedran ysgol gorfodol yn hysbys i awdurdodau lleol, a'u bod yn derbyn addysg addas.

Byrddau iechyd lleol

Cwestiwn 13 – A yw'r protocolau presennol ynglŷn â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fyddai prosesu'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

Dim ateb.

Cwestiwn 14 – A allwch nodi unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd a'r risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

Dim ateb.

Cwestiwn 15 – A ydych wedi cael unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o ddatgelu/prosesu data?

Dim ateb.

Cwestiwn 16 – Beth yw goblygiadau prosesu a datgelu'r data gofynnol i ALLau o ran adnoddau a materion technegol?

Dim ateb.

Ysgolion annibynnol

Cwestiwn 17 – A allwch nodi unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd a'r risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

Dim ateb.

Cwestiwn 18 – A ydych wedi cael unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o brosesu?

Dim ateb.

Cwestiwn 19 – Beth yw goblygiadau prosesu a datgelu'r data gofynnol i ALLau o ran adnoddau a materion technegol?

Dim ateb.

ALLau

Cwestiwn 20 – A hepgorwyd unrhyw beth yn yr Atodlen o Wybodaeth i'w chynnwys yn y gronfa ddata?

Dim ateb.

Cwestiwn 21 – A yw'r protocolau presennol ynglŷn â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fyddai prosesu'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

Dim ateb.

Cwestiwn 22 – A allwch nodi unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd a'r risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

Dim ateb.

Cwestiwn 23 – A ydych wedi cael unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o brosesu?

Dim ateb.

Cwestiwn 24 – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r rheoliadau drafft hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gallai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu sut y gallai effeithiau negyddol gael eu lliniaru?

Sylwadau ategol

Effaith niwtral.

Cwestiwn 25 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau:

- i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) na fyddant yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Dim ateb.

Cwestiwn 26: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt.

Dim ateb.

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

